



Llywodraeth Cymru
Welsh Government



Nid oes yn rhaid i chi fod yn cysgu ar y stryd i fod yn ddigartref, efallai y bydd gennych swydd ac yn dal i fod mewn perygl.

Fel cyflogwr, mae'n bwysig gofalu am eich cydweithwyr a'ch cyflogeion.

Gallai gynnwys cysgu ar sofffa ffrind neu aelod o'r teulu, aros rhywle dros dro fel hostel neu wely a brecwast, byw mewn amodau gwael iawn neu rywle nad yw'n addas ar gyfer unigolyn neu deulu.

Nid yw llawer o bobl ifanc yn y sefyllfaedd hyn yn sylweddoli eu bod mewn gwirionedd yn profi'r hyn a elwir yn 'ddigartrefedd cudd'. Gall hyn fod hyd yn oed yn anoddach i ffrindiau, teulu a chydweithwyr sylwi arno. Efallai fod ganddyn nhw swydd, ond y tu ôl i'r llenni, mae'n bosibl bod effaith COVID-19 yn dinistrio eu sefyllfa o ran bod â chartref. Yn nhri mis cyntaf y cyfyngiadau symud, fe wnaeth y galwadau i'n llinell gymorth fwy na dyblu.

Gallwch helpu cydweithiwr neu gyflogai sydd mewn perygl trwy adnabod yr arwyddion a'i annog i ofyn am gymorth.

Nid yw hi byth yn rhy hwyr nac yn rhy gynnar i gael help.

08000 495 495

sheltercymru.org.uk/cy/digartrefeddcudd

Llamau Shelter
Cymru



Llywodraeth Cymru
Welsh Government



You don't have to be sleeping on the streets to be homeless, you can still have a job and be at risk.

As an employer, it's important now more than ever to look out for your colleagues and employees.

It might be sleeping on the sofa of a friend or family member, staying somewhere temporarily like a hostel or bed & breakfast, living in very poor conditions or somewhere that's not suitable for an individual or a family.

Many young people in these situations don't realise that they're actually experiencing what's known as 'hidden homelessness'. This can be even harder to spot for friends, family and colleagues. They might be holding down a job, but behind the scenes, the impact of COVID-19 could slowly be destroying their housing situation. In the first three months of lockdown, calls to our helpline more than doubled.

You can help a colleague or employee at risk by first recognising the signs and then encouraging them to reach out.

It's never too late or too early to get help.

08000 495 495

sheltercymru.org.uk/hiddenhomelessness

Llamau Shelter
Cymru

Gwybod beth yw'r arwyddion:

Aros gyda ffrind:

Mae llawer o bobl ifanc yn aros gyda ffrindiau, aelodau'r teulu neu bobl y maent yn eu hadnabod gan nad oes ganddyn nhw unrhyw le arall i fynd, sy'n aml yn cael ei ddisgrifio fel 'syrffio sofffa'.

Perthynas yn chwalu:

Gall hyn amrywio o drafferthion teuluol i berthynas cwpl yn chwalu. Mae'r problemau hyn yn ymwneud â pherthynas yn gallu bod yn sbardun sydyn i rywun fod mewn perygl o fod yn ddigartref ac mae'n gallu cyd-fynd â thrais.

Iechyd:

Mae problemau iechyd meddwl a chorfforol yn gallu gwneud rhywun yn agored i ddigartrefedd.

Arian:

Mae bod â thrafferthion ariannol yn gallu bod yn un o'r arwyddion cyntaf bod rhywun mewn trafferth.

Profedigaeth yn y teulu:

Gall hwn hefyd wneud person yn agored i ddigartrefedd.

Aros yn hwyr:

Yn y gwaith, mewn caffi, yn yr ysgol, yn y coleg, yn y brifysgol... efallai nad oes gan rywun sy'n ymddangos nad yw byth yn mynd adref rywle i fynd iddo.

Cam-fanteisio:

Mae pobl ifanc sy'n wynebu digartrefedd cudd mewn perygl o gael eu cam-fanteisio gan eraill. Efallai y byddan nhw'n cael eu rhoi dan bwysau i gael rhyw yn gyfnwid am le i aros.

08000 495 495

#DigartrefeddCudd




Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Sut i gael help:

Ffonio ein llinell cyngor ar dai am ddim ar 08000 495 495

Mynd i sheltercymru.org.uk/cy/digartrefeddcudd i:

- Anfon e-bost at un o'n cynghorwyr.
- Siarad â'n cynorthwydd digidol, Wyni.
- Anfon neges uniongyrchol i'n cynghorwyr drwy ein gwefan, 10am - 2pm, dydd Llun i ddydd Gwener.
- Lawrlwythwch ein App Cymorth Tai rhad ac am ddim i'w ddefnyddio pan nad oes gennych chi Wi-Fi.



Nid yw hi byth yn rhy hwyr nac yn rhy gynnar i gael help.

Llamau Shelter
Cymru

Spot the signs:

Staying at a friend's:

Many young people stay with friends or acquaintances because they don't have anywhere else to live, which can often be described as 'sofa surfing'. Even though they are not sleeping on the streets, this is still classed as being homeless.

Relationship breakdown:

This can often be a very sudden trigger for someone and make them at risk of becoming homeless and can often correspond with violence.

Health:

Issues with mental and physical health can make someone vulnerable to homelessness.

Finances:

Struggling with finances can be one of the first signs that someone is in trouble.

Family bereavement:

The loss of a loved one can make a person vulnerable to homelessness.

Staying late:

At work, at a cafe, at college, even sleeping on public transport without ever arriving at their stop... someone who seems to never go home may have nowhere to go.

Exploitation:

Young people experiencing hidden homelessness are at risk of being exploited by others. They might be pressurised into a sex for rent arrangement in exchange for a place to stay.

08000 495 495

#HiddenHomelessness




Llywodraeth Cymru
Welsh Government

How to get help:

You can get in touch with us by calling our free housing advice helpline 08000 495 495.

Visit sheltercymru.org.uk/hiddenhomelessness to:

- Email one of our advisers.
- Speak to our digital assistant Wyni.
- Instantly message our advisers via our website, 10am - 2pm, Monday to Friday.
- Download our free Housing Help App that you can use when you don't have Wi-Fi.



It's never too late or too early to get help.

Llamau Shelter
Cymru